

Prifysgol Bangor: Hysbysiad Preifatrwydd i Fyfyrrwyr

(Darpar Fyfyrrwyr a Myfyrrwyr Cofrestredig)

1. Rhagarweiniad

Prifysgol Bangor (y Brifysgol) yw'r rheolydd data mewn perthynas â'ch gwybodaeth, fel y diffinnir yn Neddf Diogelu Data 2018, ac mae wedi ymrwymo i ddiogelu eich hawliau, yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol y Deyrnas Unedig ar Ddiogelu Data (UK GDPR).

Mae'r Brifysgol wedi'i chofrestru fel talwr ffioedd gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, rhif cofrestru Z7439647.

Cynrychiolydd penodedig y Brifysgol dros ddeddfwriaeth diogelu data, a'r Swyddog Diogelu Data yw:

Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol

Gwasanaethau Cyfreithiol a Chydymffurfio

Prifysgol Bangor

Ffordd y Coleg

Bangor

Gwynedd

LL57 2DG

Mae'r datganiad hwn yn egluro sut mae'r Brifysgol yn trin a defnyddio'ch gwybodaeth bersonol yn ystod y cyfnod ymholi ac ymgeisio, yn ystod eich cyfnod fel myfyriwr a hefyd ar ôl i chi raddio.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol a bod yn agored ynghylch pa wybodaeth sydd ganddi. Mae gan y Brifysgol ystod o bolisiau a gweithdrefnau ar waith sy'n ymwneud â diogelu data ac sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a'r arferion gorau.

Gellir casglu gwybodaeth bersonol yn ganolog, a chan Ysgolion ac adrannau'r Brifysgol, er enghraifft gan y Gwasanaethau Cefnogi Myfyrrwyr, Celfyddydau Pontio, Canolfan Brailsford.

2. Pa wybodaeth ydym ni'n ei chasglu amdanoch?

Bydd y Brifysgol yn casglu gwybodaeth amdanoch chi yn ystod ei chysylltiad â chi fel darpar fyfyriwr, myfyriwr cyfredol a chyn-fyfyriwr, er enghraifft, pan fyddwch yn gwneud cais, pan fyddwch yn cofrestru ac wrth i chi fynd trwy'ch cwrs.

Efallai y byddwn hefyd yn derbyn gwybodaeth amdano chi o'r tu allan i'r Brifysgol, megis gwybodaeth gan UCAS sy'n ymwneud â cheisiadau UCAS israddedigion, gwybodaeth atodol y gofynnir amdani gan y Brifysgol, yn ogystal â gwybodaeth a ddarperir gan ganolwyr. Mae'r mathau o wybodaeth bersonol a brosesir yn cynnwys y canlynol, er nad yw wedi ei chyfyngu iddynt:

- Eich enw
- Dyddiad geni
- Manylion cyswllt a gwybodaeth arall a gyflwynwyd yn ystod y prosesau ymholi, gwneud cais a chofrestru.
- Ffotograff myfyriwr
- Manylion am unrhyw euogfarnau troseddol perthnasol
- Manylion am y cymwysterau sydd gennych ac yr ydych yn eu gwneud ar hyn o bryd.
- Manylion am y cyrsiau, modiwlau, amserlenni ac archebu ystafelloedd, marciau asesu ac arholiadau.
- Gwybodaeth dystiolaethol a gasglwyd mewn perthynas â phrosesau cefnogaeth academiaidd megis amgylchiadau arbennig, ac ymchwiliadau i uniondeb academiaidd.
- Gwybodaeth ariannol a phersonol a gesglir at ddibenion gweinyddu ffioedd a thaliadau, benthyciadau, grantiau, ysgoloriaethau a chronfeydd caledi.
- Ffotograffau, a recordiadau fideo at ddibenion recordio darlithoedd, asesiadau myfyrwyr ac arholiadau.
- Gwybodaeth am eich ymgysylltu yn y Brifysgol megis gwybodaeth am bresenoldeb
- Gwybodaeth a gesglir gan wasanaethau electronig, megis Blackboard.
- Manylion cyswllt eich perthnasau agosaf, neu eraill, i'w defnyddio mewn argyfwng.
- Gwybodaeth yn ymwneud ag atal a chanfod troseddau a diogelwch a staff a myfyrwyr, gan gynnwys, er nad yw wedi'i chyfyngu i hynny, recordiadau teledu cylch cyfyng a data yn ymwneud â thorri rheoliadau'r Brifysgol.
- Gwybodaeth a gasglwyd at ddibenion monitro cyfle cyfartal.
- Gwybodaeth sy'n ymwneud â darparu cyngor, cefnogaeth a lles, megis data sy'n ymwneud â defnyddio'r gwasanaethau a gynigir gan y Gwasanaeth Cefnogi Myfyrwyr.
- I fyfyrwyr rhyngwladol (yn cynnwys myfyrwyr yr UE): Copïau o basbortau, fisâu ac unrhyw ddogfennau eraill sy'n ofynnol i sicrhau cydymffurfiaid â gofynion y Swyddfa Gartref yn ogystal â data biometreg at ddibenion gwirio presenoldeb.
- I fyfyrwyr y Deyrnas Unedig: Copïau o basbortau neu unrhyw ddogfennau eraill sy'n ofynnol i sicrhau cymhwysedd i dderbyn cymorth ariannol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ac yn unol â'r gofynion i astudio ac adnabod.

Gall peth o'r data hyn gael eu categoreiddio fel data categorïau arbennig, fel y diffinnir hynny gan Ddeddf Diogelu Data 2018.

3. Sut caiff eich gwybodaeth ei defnyddio?

Nid yw'n bosibl nodi pob pwrpas y bydd y Brifysgol yn defnyddio'ch gwybodaeth yn ystod eich ymwneud â ni. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o sut mae'r wybodaeth yn debygol o gael ei defnyddio. Dylech gofio bod cofnod craidd yn cael ei gadw ar ôl i chi raddio ac y caiff ei ddefnyddio fel yr amlinellir isod. Mae'r rhif mewn cromfachau yn cyfeirio at y sail gyfreithiol y mae'r Brifysgol yn dibynnu arni er mwyn prosesu eich data yn gyfreithlon, fel y diffinnir hynny gan y Rheoliad Cyffredinol y Deyrnas Unedig ar Ddiogelu Data.

• I gysylltu â chi fel darpar fyfyrwr er mwyn rhoi gwybodaeth i chi am y brifysgol, cyrsiau perthnasol, ein cyfleusterau prifysgol, gwybodaeth y gallai fod ei hangen arnoch er mwyn gwneud cais am fisa, gwybodaeth am neuaddau'r brifysgol ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall i'ch cynorthwyo i ddewis prifysgol.

- I weinyddu'ch astudiaethau a chofnodi cyflawniadau academiaidd (e.e. eich dewisiadau o ran cwrs, arholiadau ac asesiadau, a chyhoeddi rhestrau llwyddo a rhaglenni graddio) **(i), (iv)**
- I gynorthwyo gydag anghenion bugeiliol a lles (e.e. y gwasanaeth cwnsela a gwasanaethau i fyfyrwyr ag anableddau) **(ii)**
- I weinyddu cefnogaeth ar gyfer eich holl anghenion cyflogadwyedd (e.e. cael cyngor gyrfael). Gall eich gwybodaeth gael ei phrosesu gan drydydd parti dan gontract i sicrhau y gallwch cael mynediad at ystod o wasanaethau cyflogadwyedd sy'n ategu adnoddau'r Brifysgol ei hun. Bydd y wybodaeth amdanoch yn cael ei chadw ar ôl i chi raddio i sicrhau eich bod yn parhau i gael mynediad i'r gefnogaeth datblygu gyrfa lawn y mae'r Brifysgol yn ei chynnig i bob un o'i graddedigion. **(iii)**
- I weinyddu agweddau ariannol ar ôl i chi gofrestru fel myfyrwr (e.e. talu ffioedd, casglu dyledion) **(i)**.
- I ddarparu neu gynnig cyfleusterau a gwasanaethau i fyfyrwyr (e.e. llety, cyfleusterau chwaraeon, cyfleusterau cyfrifiadurol a'r Llyfrgell) **(i), (ii), (iii)**.
- I gynnal ymchwiliadau yn unol â rheoliadau academiaidd a chamymddwyn **(i)**
- I weithredu prosesau diogelwch, disgyblu, cwyno a sicrhau ansawdd ac at ddibenion adnabod cyffredinol **(i)**.
- I gynhyrchu ystadegau rheoli a chynnal ymchwil i effeithiolrwydd ein rhaglenni astudio yn ogystal â chynhyrchu ystadegau at ddibenion statudol **(iv), (v)**.
- I fonitro presenoldeb ac ymwneud yr holl fyfyrwyr, ac yn achos myfyrwyr rhyngwladol (yn cynnwys myfyrwyr yr UE) ar Fisâu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau eu nawdd **(iv)**.
- I sicrhau cyfleoedd unigol i lwyddo trwy ddefnyddio dadansoddeg dysgu a ddefnyddir i fonitro eich ymwneud â'ch astudiaethau. Bydd hyn yn cynnwys prosesu data fel presenoldeb, asesu a defnyddio amgylchedd dysgu rhithiol i ddatblygu darlun cyffredinol o'r cysylltiad. Gwneir prosesu o'r fath dim ond lle bo angen hynny i sicrhau buddiannau dilys y Brifysgol neu'r myfyrwr, a dim ond pan nad yw'r prosesu yn ddiangen ac ni fydd yn achosi effaith niweidiol ar hawliau a rhyddid, neu fuddiannau dilys y myfyrwr. Caiff data personol categori arbennig ei brosesu dim ond pan fo'r Brifysgol yn dadansoddi tueddiadau a phatrymau i gynhyrchu adroddiadau ystadegol rheoli **(iii), (v)**.
- I fonitro ein cyfrifoldebau dan ein polisiâu deddfwriaeth cydraddoldeb **(iv), (v)**.
- At ddibenion yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch ("HESA" – cyfarwyddiaeth o'r Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth ("JISC")) – mae'n ofynnol i'r Brifysgol anfon rhywfaint o'r wybodaeth a gasglwn amdanoch i HESA at ddibenion dadansoddi ystadegol **(iv), (v)**.
- At ddibenion yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) a / neu drydydd parti dan gontract, i gynnal yr Arolwg Canlyniadau Graddedigion ar ôl i chi raddio **(iv)**.
- I rannu gwybodaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â hysbysu am glefydau heintus hysbysadwy.

Sylwch y gellir dod o hyd i fanylion yn ymwneud â phrosesu eich data personol gan JISC a HESA yma:

<https://www.hesa.ac.uk/about/regulation/data-protection/notices>

<https://www.jisc.ac.uk/website/privacy-notice>

- Ar gyfer yr Adroddiad Cyflawniad Addysg Uwch (Atodiad Diploma) - i roi gwybodaeth fanylach am eich dysgu a'ch cyrhaeddiad nag a ddarperir gan y system dosbarthiad graddau traddodiadol **(iv)**.

- At ddibenion eithrio rhag Treth y Cyngor lle caiff gwybodaeth bersonol ei rhannu gydag Awdurdodau Lleol

(iii).

- I gael eich cynnwys yn y llyfryn graddio a gynhrychir ar gyfer y Seremoni Raddio **(iii)**.

- I gysylltu â chi ar ôl i chi raddio ynglŷn ag aelodaeth o Gymdeithas y Cyn-fyfyrrwyr a digwyddiadau i gyn-fyfyrrwyr, datblygiadau newydd yn y Brifysgol ac i ddiweddarau eich dewisiadau cyfathrebu i sicrhau bod eich profiad o Gymdeithas y Cyn-fyfyrrwyr mor fuddiol ac y bo modd **(iii)**, **(ii)**.

- I wirio cymwysterau, darparu trawsgrifiadau o farciau a darparu geirdaon academiaidd i gefnogi eich gyrfa ar ôl i chi raddio **(iii)**, **(iv)**.

- I gynorthwyo Undeb y Myfyrrwyr i weinyddu etholiadau ac i hwyluso eu cynnal mewn ffordd deg a democrataidd. Pan roddwyd cydsyniad, bydd y Brifysgol hefyd yn rhannu data am ethnigrwydd fel y gall Undeb y Myfyrrwyr fonitro a hyrwyddo ymgysylltiad pobl o gymunedau ethnig lleiafrifol **(iii)**, **(ii)**.

Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu gwybodaeth amdanoch

(i) Trwy ddechrau neu gofrestru fel myfyriwr gyda ni, bydd raid i Brifysgol Bangor gasglu, storio, defnyddio a phrosesu gwybodaeth amdanoch chi ar gyfer unrhyw ddibenion sy'n gysylltiedig ag addysgu, cefnogi, ymchwil, gweinyddu, eich iechyd a'ch diogelwch ac am resymau eraill a ystyrir yn angenrheidiol ar gyfer gweithredu eich cytundeb contractol gyda'r Brifysgol. Byddwn hefyd yn defnyddio'r wybodaeth amdanoch at ddibenion penodol ar ôl i chi orffen bod yn fyfyriwr. Gweler Erthygl 6(1)(b) GDPR

(ii) Bydd y Brifysgol yn cael eich cydsyniad er mwyn cynorthwyo gyda'ch anghenion bugeiliol a lles (e.e. y gwasanaeth cwnsela a gwasanaethau i fyfyrrwyr ag anableddau). Gweler Erthygl 6(1)(a) GDPR

(iii) Efallai y bydd angen prosesu eich data personol hefyd ar gyfer ein buddiannau dilys ni neu fuddiannau dilys trydydd parti - ond dim ond pan nad yw'r prosesu yn dod o fewn ein swyddogaeth gyhoeddus graidd, nid yw'n ddireswm nac yn achosi effaith ragfarnus ar hawliau a rhyddid, neu fuddiannau dilys y myfyriwr Gweler Erthygl 6(1)(f) GDPR.

(iv) Bod angen prosesu eich data personol ar gyfer cyflawni tasg a wneir er lles y cyhoedd neu wrth weithredu awdurdod swyddogol a roddir i'r Brifysgol (gweler Erthygl 6(1)(e) GDPR) ac at ddibenion ystadegol ac ymchwil (gweler Erthygl 89 GDPR).

(v) Bod angen prosesu data Categoriâu Arbennig at ddibenion ystadegol ac ymchwil yn unol ag erthygl 89(1) yn seiliedig ar y dyletswyddau yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (gweler Erthygl 9(2)(j) GDPR)

4. Pwy sy'n derbyn y wybodaeth amdanoch?

Pan fo angen, er mwyn darparu'r gwasanaethau yr ydym wedi rhoi gwybod i chi amdanynt, bydd gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu'n fewnol rhwng adrannau academiaidd a gwasanaethau proffesiynol ar draws y Brifysgol. Caiff gwybodaeth bersonol a rennir fel hyn ei diogelu gan y Brifysgol

fel y nodir yn y Polisi Diogelwch Gwybodaeth, ac ni ddatgelir gwybodaeth i drydydd parti heb eich cydsyniad, neu, oni bai ei bod caniatâd i wneud yn ôl y gyfraith neu gontract.

Mae'r adran hon yn amlinellu'r prif sefydliadau a'r amgylchiadau mwyaf cyffredin pan mae'r Brifysgol yn datgelu gwybodaeth ynglŷn â'i myfyrwyr. Lle mae hynny'n cynnwys trosglwyddiad rhyngwladol, trosglwyddir gwybodaeth yn unig os yw'n bodloni'r amodau a amlinellir yn Neddf Diogelu Data 2018.

- **NARIC y DU** - Fel rhan o'r broses ar gyfer Derbyn myfyrwyr rhyngwladol gall Prifysgol Bangor, ar adegau, ddefnyddio gwasanaethau Ymholiad i Aelodau NARIC er mwyn gwirio, dilysu cymwysterau ac atal twyll pan fydd angen trosglwyddo dogfennau a rhannu data, megis tystysgrifau cymhwyster gydag enwau a manylion yr ymgeiswyr, neu ddogfennau eraill sy'n cynnwys manylion personol, a ddarparwyd i Brifysgol Bangor.
- Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), cyfarwyddiaeth o fewn JISC - mae'n ofynnol i Brifysgol Bangor anfon peth o'r wybodaeth yr ydym yn ei chasglu amdano chi at HESA at ddibenion dadansoddi ystadegol ac i gynnal yr arolwg Canlyniadau Graddedigion.
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW) yn unol â'n cyfrifoldebau statudol.
- Mae gan y Brifysgol drwydded i noddi myfyrwyr mudol o dan Haen 4 y system sy'n seiliedig ar bwyntiau.
- Bydd y Brifysgol yn darparu data am fyfyrwyr ar fisa Haen 4 i'r Swyddfa Gartref a'i hadrannau er mwyn cyflawni ei dyletswyddau o dan ei thrwydded.
- Noddwyr a rhieni, dim ond os rhoddwyd cydsyniad.
- Sefydliadau Addysg Uwch Eraill os yw eich rhaglen astudio, er enghraifft, yn golygu treulio cyfnod mewn sefydliad y tu allan i Brifysgol Bangor, gan gynnwys mewn sefydliad addysg uwch dramor neu os ydych wedi dod i Brifysgol Bangor fel myfyriwr sy'n ymweld neu'n gyfnewid, efallai y bydd angen i ni rannu gwybodaeth amdano chi gyda'r sefydliadau eraill sy'n gysylltiedig â'r cyfnewid. Gwneir hyn ar gyfer gweinyddu'r ymweliad, cyfnewid neu astudio dramor, ac fel y gall y sefydliad arall gyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â'ch astudiaethau. Efallai y bydd angen rhannu data personol hefyd yn ystod projectau cydweithredol neu amgylchiadau eraill lle mae angen dilysu cymwysterau neu ddata personol. Mewn amgylchiadau cyfyngedig, bydd data personol hefyd yn cael ei rannu lle mae pryder ynghylch eich lles neu eich ymwneud.
- Cyrff proffesiynol (e.e. Cymdeithas y Gyfraith) er mwyn cadarnhau eich cymwysterau ac achredu'ch cwrs.
- Safleoedd lleoliadau gwaith neu bartneriaid addysgol sy'n ymwneud â darparu cyrsiau ar y cyd.
- Y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr i gadarnhau cofrestru, presenoldeb a phwy ydych chi er mwyn i fyfyrwyr allu cael cymorth ariannol.
- Cwmnïau adennill a rheoli dyledion er mwyn adennill dyledion ar ran y Brifysgol, lle mae gweithdrefnau adennill dyledion mewnol wedi bod yn aflwyddiannus.
- Cyflogwyr posibl rydych wedi cysylltu â nhw.
- Darparwyr addysg rydych wedi cysylltu â nhw (e.e. ar gyfer gwirio cymwysterau).
- Asiantaethau yn y Deyrnas Unedig a chanddynt ddyletswyddau'n ymwneud ag atal a chanfod troseddau, casglu trethi neu dollau neu warchod diogelwch gwladol. Dylech nodi bod dyletswydd statudol i sefydliadau addysg uwch roi sylw dyledus i'r angen i atal unigolion rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth. Gall hyn olygu y bydd angen i'r Brifysgol, mewn amgylchiadau arbennig, drosglwyddo data personol i gyrff cydlynu a sefydliadau partner megis llywodraeth leol a'r heddlu. Yn ogystal, llysoedd neu Swyddfeydd Crwneriaid.

- Darparwyr gwasanaeth canfod llên-ladrad yn unol â'r contract perthnasol. Gall y darparwyr gwasanaeth hyn fod y tu allan i'r Deyrnas Unedig.
- Awdurdodau lleol at ddibenion eithrio rhag treth y cyngor lle bo angen ar gyfer buddiannau dilys yr awdurdodau lleol neu eich buddiannau eich hun, ond dim ond pan nad yw'r prosesu yn dod o fewn ein swyddogaeth gyhoeddus graidd, nad yw'n ddireswm ac na fydd yn achosi effaith niweidiol ar eich hawliau a rhyddid, neu fuddiannau dilys.
- Swyddfeydd Etholiadol er mwyn hwyluso hunan-gofrestru. Sylwer nad yw'r Brifysgol ei hun yn eich cofrestru i bleidleisio. Dylech wirio gyda Swyddfa Etholiadol y cyngor sir i sicrhau eich bod ar y gofrestr etholiadol.
- Undeb y Myfyrwyr lle bo angen hynny ar gyfer buddiannau dilys Undeb y Myfyrwyr neu eich buddiannau dilys eich hun, er mwyn cymryd rhan mewn prosesau democrataidd, elwa ar wasanaethau cynrychiolaeth, ymuno â chlybiau chwaraeon a chymdeithasau a derbyn gohebiaeth. Pan ddarparwyd cydsyniad, bydd y Brifysgol hefyd yn rhannu data am ethnigrwydd fel y gall Undeb y Myfyrwyr fonitro a hyrwyddo ymgysylltiad pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Mae cytundeb rhannu data yn llywodraethu'r broses hon sy'n hwyluso rhwymedigaethau'r Brifysgol o dan adran 22 Deddf Addysg 1994.
- Gall archwilwyr, cyfreithwyr, yswirwyr, asiantaethau casglu dyledion ac asiantau eraill y Brifysgol fod angen mynediad at ddata personol o bryd i'w gilydd lle bo angen hynny. Bydd y penderfyniadau hyn bob amser yn cael eu gwneud fesul achos gan y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio.
- Partneriaid eraill (megis awdurdodau lleol, ymddiriedolaethau iechyd) lle bo angen gwneud hynny mewn perthynas â'r broses ymgeisio ar gyfer cyrsiau gradd penodol e.e. awdurdodau lleol Conwy, Ynys Môn a Gwynedd mewn perthynas â'r MA Gwaith Cymdeithasol.
- Asiantaeth Refeniw Canada (CRA) er mwyn cadw statws Prifysgol Bangor fel Prifysgol Restredig sy'n galluogi rhoddwyr yng Nghanada i roi treth yn effeithlon, ar gyfer myfyrwyr sy'n bodloni'r meini prawf gwybodaeth. Mae'r wybodaeth hon yn ofynnol gan y CRA fel prawf bod Prifysgol Bangor yn addysgu dinasyddion Canada. Bydd y data yn aros gyda'r CRA a chaiff ei roi at ddibenion dilysu yn unig.
- Yr Oxford International Education Group (OIEG) at ddibenion recriwtio a derbyn.
- Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â hysbysu am glefydau heintus.
- GIG Cymru, pan fo angen.
- Gecko Engage i gasglu ymholiadau gan ddarpar fyfyrwyr, ac i gofrestru'r rhai sy'n bresennol yn ein digwyddiadau rhithiol ac ar y campws.
- UniQuest mewn perthynas â gweithgareddau trosi gyda darpar fyfyrwyr.
- Quadient at ddibenion rhannu data sy'n ymwneud â system olrhain parseli a system locer parseli'r Brifysgol.
- Bydd unrhyw ddatgeliadau eraill y bydd y Brifysgol yn eu gwneud yn unol â deddfwriaeth diogelu data, a bydd eich buddiannau a'ch hawliau yn cael eu hystyried yn ofalus.

5. Gwybodaeth bellach yn ymwneud â'ch data

Gwneud penderfyniadau trwy ddulliau awtomataidd, gan gynnwys proffilio

Gall y Brifysgol wneud penderfyniadau awtomataidd mewn nifer cyfyngedig o amgylchiadau yn unig, fel rheol y rhai sy'n gysylltiedig â statws asesu ffioedd, addasrwydd ar gyfer cymorth ariannol a maes dadansoddi dysgu. Os oes gennych unrhyw ymholiadau'n ymwneud â'r prosesau hyn, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data.

Trosglwyddo Gwybodaeth Dramor

Er mwyn cyflawni dibenion prosesu eich data, efallai y bydd angen i ni rannu eich data gyda sefydliadau y tu allan i'r Deyrnas Unedig. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd y Brifysgol yn sicrhau bod mesurau diogelu priodol yn eu lle. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd angen trosglwyddiadau ar gyfer cyflawni'r contract rhyngoch chi a'r brifysgol a/neu fe'i cyflawnir gyda'ch cydsyniad.

Gwasanaethau trydydd parti

Gall y Brifysgol ddefnyddio, o dan gontract a chytundeb, gyflenwyr trydydd parti neu broseswyr i ddarparu gwasanaethau penodol i fyfyrwyr, megis e-bost neu storio data. Bydd y gwasanaethau hyn yn cydymffurfio â GDPR UK a bydd y data, fel rheol, yn cael ei brosesu o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Yr un modd, gall y Brifysgol neu sefydliadau allanol ddefnyddio trydydd parti i wneud arolygon neu waith arall a all olygu bod y trydydd partion hyn yn cael mynediad at eich data.

Myfyrwyr sy'n astudio tu allan i'r Deyrnas Unedig

Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth am fyfyrwyr sy'n astudio mewn safleoedd tu allan i'r Deyrnas Unedig hefyd yn cael ei rhoi i gyrrff swyddogol priodol (sy'n gyfwerth neu'n debyg i'r rhai a restrir yn 4 uchod) yn y gwledydd hynny lle maent wedi'u lleoli.

Eich hawliau

Mae gennych hawl i fynediad at eich gwybodaeth bersonol, gwrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol, unioni, dileu, cyfyngu a throsglwyddo'ch gwybodaeth bersonol. Os ydych wedi cydsynio i Brifysgol Bangor brosesu unrhyw ran o'ch data, yna mae gennych hawl hefyd i dynnu'r cydsyniad hwnnw'n ôl.

Dylai unrhyw geisiadau neu wrthwynebiadau gael eu hanfon yn ysgrifenedig at Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol (ceir y manylion cyswllt uchod) neu trwy e-bostio info-compliance@bangor.ac.uk

Diogelwch

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn ei gwneud yn ofynnol i ni gadw eich gwybodaeth yn ddiogel. Mae hynny'n golygu y caiff eich cyfrinachedd ei barchu, a chymerir pob cam priodol i atal mynediad a datgelu gwybodaeth heb awdurdod. Dim ond aelodau staff fydd angen mynd at rannau perthnasol eich gwybodaeth, neu eich holl wybodaeth, fydd yn cael eu hawdurdodi i wneud hynny. Bydd angen cyfrinair a chyfyngiadau diogelwch eraill i gael mynediad at wybodaeth amdanoch mewn ffurf electronig, a chaiff ffeiliau papur eu cadw mewn manau diogel gyda mynediad atynt wedi'i reoli. Mae gwybodaeth bellach am y prosesau hyn i'w chael ym Mholisi Diogelwch Gwybodaeth y Brifysgol.

Dal Gafael ar Fyfyrwyr

Mae'r Brifysgol yn cadw'r wybodaeth amdanoch yn unol ag amserlenni penodedig addysg uwch ar gadw gwybodaeth. Cedwir yn barhaol gofnod craidd sy'n dangos eich dyddiadau presenoldeb, manylion eich gradd neu gymhwyster arall neu ganlyniad arall. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn amserlen cadw gwybodaeth y Brifysgol y gellir ei gweld yma:

<https://www.bangor.ac.uk/governance-and-compliance/records-management.php.cy>

Cerdyn Myfyrwyr Prifysgol Bangor

Fel myfyriwr Prifysgol Bangor, byddwch yn cael cerdyn myfyriwr a ddefnyddir ar gyfer nifer o wahanol brosesau fel cael mynediad, cofnodi ac adnabod. Bydd y cerdyn printiedig yn cynnwys eich ffotograff a'ch enw ac efallai y bydd angen i chi ei ddangos i staff y Brifysgol at ddibenion adnabod.

Cwynion

Os ydych yn anhapus â'r ffordd y proseswyd eich gwybodaeth bersonol gallwch, yn y lle cyntaf, gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os byddwch yn dal yn anfodlon mae gennych hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Y Comisiynydd Gwybodaeth

2il Lawr, Churchill House,

Ffordd Churchill

Caerdydd

CF10 2HH

Ffôn: 0330 414 6421

Eich cyfrifoldebau

Mae gennych gyfrifoldeb i ddiweddarau eich manylion personol. Yn ystod eich astudiaethau gallwch weld gwybodaeth bersonol am eraill mewn nifer o amgylchiadau, naill ai ym Mhrifysgol Bangor neu mewn mannau eraill, fel mewn lleoliad gwaith. Disgwylir i chi drin hyn mewn modd cyfrifol a phroffesiynol ac mae'n ofynnol yn gyfreithiol i chi wneud hyn dan ddeddfwriaeth diogelu data, yn ogystal ag unrhyw foeseg proffesiynol, codau ymddygiad neu reolau a rheoliadau lleol. Os ydych chi'n cael gwybodaeth bersonol yn gyfrinachol, disgwylir i chi beidio â datgelu'r wybodaeth hon i unrhyw un heb gydsyniad yr unigolyn hwnnw, oni bai fod amgylchiadau eithriadol. Ni ddylech chwaith geisio cael data personol pobl eraill os nad oes gennych hawl iddo. Bydd camau disgyblu yn cael eu hystyried ar gyfer unrhyw fyfyrwr yn y Brifysgol sy'n torri deddfwriaeth diogelu data neu ddyletswydd cyfrinachedd.

Edrychwch ar Bolisi Diogelu Data y Brifysgol am wybodaeth bellach.